**Datganiad ar y cyd gan Brif Weithredwyr rheolyddion statudol gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol**

## Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Mae'r datganiad hwn ar y cyd ynghylch 'gwrthdaro rhwng buddiannau' yn nodi'r disgwyliadau o weithwyr iechyd a gofal proffesiynol mewn perthynas ag osgoi, datgan a rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau ar draws yr holl leoliadau gofal iechyd. Ei fwriad yw cynorthwyo'r safonau neu'r cod ar gyfer pob proffesiwn, ynghyd ag unrhyw ganllawiau ychwanegol sydd ganddynt. Y safonau proffesiynol, y cod a'r canllawiau ychwanegol ddylai fod y brif ystyriaeth i weithwyr proffesiynol. O ystyried y symud cynyddol tuag at dimau amlddisgyblaethol, credwn bod cryn werth mewn cydweithio er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson.

Byddwn yn hyrwyddo'r datganiad ar y cyd hwn ymhlith ein cofrestredigion, myfyrwyr a'r cyhoedd, er mwyn sicrhau eu bod oll yn gwybod yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl. Byddwn yn cynorthwyo hyn gydag astudiaethau achos er mwyn dangos egwyddorion y datganiadau, ac er mwyn dangos sut y gallai'r materion hyn godi mewn gwahanol leoliadau. Byddwn yn annog yr holl gofrestredigion i fyfyrio am eu dysgu eu hunain a'u hanghenion o ran datblygiad proffesiynol parhaus ynghylch gwrthdaro rhwng buddiannau.

## Delio â gwrthdaro rhwng buddiannau

Gall gwrthdaro godi mewn sefyllfaoedd pan y gallai budd personol, budd ariannol neu fudd arall ddylanwadu ar farn rhywun, neu pan geir tybiaeth y gallai eu barn gael ei ddylanwadu yn y fath ffordd.

Disgwyliwn i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol[1]:

- Roi buddiannau pobl yn eu gofal o flaen eu buddiannau nhw, neu fuddiannau unrhyw gydweithiwr, busnes, sefydliad, aelod agos o'r teulu neu ffrind.
- Cynnal terfynau personol a phroffesiynol priodol gyda'r bobl y maent yn darparu gofal ar eu cyfer a gydag eraill.
- Ystyried yn ofalus lle y gallai gwrthdaro rhwng buddiannau godi – neu lle y byddai modd tybio y byddai'n codi – a cheisio cyngor os byddant yn ansicr ynghylch sut y dylent ddelio â hyn.
- Bod yn agored ynghylch unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau y maent yn ei wynebu, a'i ddatgan mewn ffordd ffurfiol pan fo hynny'n briodol ac mor gynnar ag y bo modd, yn unol â pholisïau eu cyflogwr neu'r sefydliad sy'n contractio eu gwasanaethau.
- Sicrhau na fydd buddiannau personol, ariannol neu fasnachol, cymhellion, targedau neu fesurau tebyg yn amharu ar eu barn broffesiynol.

---

1

Mae 'gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol' yn cyfeirio at yr unigolion hynny sy'n cael eu rheoleiddio gan un o'r naw rheolydd sy'n cael eu goruchwylio gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol. Caiff gweithwyr cymdeithasol eu rheoleiddio ar wahân yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

- Gwrthod popeth ac eithrio'r rhoddion, y ffafrau neu letygarwch mwyaf pitw os byddai modd i'r cam o'u derbyn gael ei ddehongli fel ymgais i sicrhau triniaeth ffafriol, neu y byddai'n mynd yn groes i'ch cod ymarfer proffesiynol.
- Pan fo hynny'n briodol, sicrhau bod modd i gleifion droi at wybodaeth weladwy ac sy'n hawdd ei deall am unrhyw ffioedd a pholisïau codi tâl yr ydych yn gyfrifol amdanynt.

Llofnodion Prif Swyddogion Gweithredol (yn nhrefn y wyddor fesul sefydliad)



Rosalyn Hayles
Prif weithredwr a chofrestrydd
Cyngor Ceiroprateg Cyfffredinol



Ian Brack
Prif weithredwr a chofrestrydd
Cyngor Deintyddol Cyffredinol



Charlie Massey
Prif weithredwr a chofrestrydd
Cyngor Meddygol Cyffredinol



Alistair Bridge,
Prif weithredwr a chofrestrydd
Cyngor Optegol Cyffredinol



Tim Walker
Prif weithredwr a chofrestrydd
Cygnor Osteopathig Cyffendinol



Duncan Rudkin
Prif weithredwr a chofrestrydd
Cygnor Fferyllol Cyffredinol



Marc Seale
Prif weithredwr a chofrestrydd
Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal



Trevor Patterson
Prif weithredwr
Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon



Jackie Smith
Prif weithredwr a chofrestrydd
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth